OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1075

## Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Cais am Ffioedd Cymeradwyo) (Cymru) 2018

**Graddfa ffioedd**

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 5 i 9, pennir ffi am gais fel a ganlyn—

(a) £350 am bob cais, a

(b) swm ychwanegol hyd at uchafswm o £7,500 a gyfrifir drwy gyfeirio at faint yr ardal adeiladu fel a ganlyn—

(i) £70 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, am y 0.5 hectar cyntaf;

(ii) £50 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, o 0.5 hectar hyd at a chan gynnwys 1.0 hectar;

(iii) £20 am bob 0.1 hectar neu ffracsiwn o 0.1 hectar, o 1.0 hectar a hyd at a chan gynnwys 5.0 hectar;

(iv) £10 am bob 0.1 hectar ychwanegol neu ffracsiwn o 0.1 hectar sy'n fwy na 5.0 hectar.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ardal adeiladu" yw—

(a) yr ardal o dir a nodwyd ar blan sy'n mynd gyda'r cais am ganiatâd cynllunio(**1**), neu

(b) os nad oes cais am ganiatâd cynllunio wedi ei wneud, yr ardal o dir y mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn arno, neu y bwriedir cychwyn gwaith adeiladu arno.

(**1**) Diffinnir "planning permission" ym mharagraff 8(4) o Atodlen 3.